Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Groeslon
# Y Neuadd Bentref
# Y Groeslon
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL54 2RG

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/06/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Y Groeslon yn lleoliad ym mhentref Y Groeslon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'n cyfarfod yn neuadd y pentref. Mae'r lleoliad ar agor am bump dydd yr wythnos. Mae gan y lleoliad pedwar aelod o staff.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant. Mae'n derbyn plant rhwng dwy a thair oed. Ar adeg yr arolygiad, roedd 15 o blant yn mynychu, saith ohonynt wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un plentyn o darddiad gwyn Prydeinig ac maent yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r arweinydd dros dro wedi bod yn ei swydd er Rhagfyr 2014. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2014 a chan Estyn ym Mawrth 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Er bod y deilliannau a'r ddarpariaeth yn dda, mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol, oherwydd yr ansicrwydd sy'n bodoli ynglŷn ag arweinyddiath a rheolaeth y lleoliad.

Y cryfderau yw:

- cynnydd da y plant ac agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- profiadau dysgu, sy'n cael eu cynllunio'n dda ar y cyfan;
- cefnogaeth dda ac addysgu effeithiol yn ystod tasgau;
- defnydd pwrpasol o'r Gymraeg, sy'n cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith; ac
- y berthynas dda rhwng oedolion a phlant.

Y meysydd ar gyfer gwella yw:

- creu sicrwydd yn y systemau rheoli er mwyn sicrhau fod safonau'r plant a darpariaeth y lleoliad yn cael eu cynnal;
- sicrhau bod asesiadau yn cael eu cofnodi'n gyson, gan nodi targedau penodol i symud y plant ymlaen;
- datblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach ac ymwybyddiaeth y plant o ddinasyddiaeth fyd-eang; a
- gwella'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r ardal allanol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol.

Y cryfderau yw:

- agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff;
- defnydd effeithiol o linellau cymorth;
- y berthynas gadarnhaol ymhlith y staff;
- y defnydd o'r gymuned i gefnogi y lleoliad; ac
- yr adnoddau dan do da.

Y meysydd ar gyfer gwella yw:

- lleihau ansefydlogrwydd y rolau rheoli ac arweinyddiaeth yn y lleoliad;
- sefydlu blaenoriaethau cynllunio a datblygu strategol er mwyn sicrhau gwelliannau;
- datblygu cadernid y pwyllgor rheoli wrth ddyrannu rolau a chyfrifoldebau pwysig i staff; ac
- ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1 Datblygu dealltwriaeth y plant o'r byd ehangach a'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang

A2 Cwblhau asesiadau rheolaidd i gofnodi cynnydd plant o'u mannau cychwyn

A3 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a phrofiadau yn yr ardal allanol

A4 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli a sicrhau eu bod yn dyrannu rolau a chyfrifoldebau cadarn

A5 Gwella effeithiolrwydd a dealltwriaeth o'r prosesau hunan arfarnu a chynllunio datblygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn gwneud gwelliannau cadarnhaol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer o blant yn trafod syniadau gyda phlant eraill ac oedolion yn synhwyrol. Maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd ar y carped wrth drafod storïau a diwrnodau'r wythnos ar y cyd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn trafod lliwiau'n synhwyrol wrth ddefnyddio toes a phaent. Maent hefyd yn siarad yn hyderus a chywir am sut y byddent yn prynu a gwerthu blodau yn y siop flodau. Maent yn defnyddio arian yn ystyrlon ac yn gwneud marciau pwrpasol wrth gofnodi gwerthiannau yn y siop.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn eistedd yn dawel wrth wrando ar gyflwyniad i dasg. Maent yn ymuno'n frwdfrydig wrth drafod y tasgau gwahanol neu wrth ganu caneuon a hwiangerddi. Mae llawer yn awyddus iawn i ateb cwestiynau am yr hyn y maent yn eu gwneud. Mae'r lleiafrif o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol ac mae ychydig ohonynt yn dal llyfrau'n gywir a thrafod y cynnwys yn hyderus gyda'i gilydd ac oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy wneud marciau a pheintio. Mae ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o ddiben ysgrifennu ac maent yn defnyddio gwneud marciau'n ystyrlon, er enghraifft yn y siop wrth chwarae rôl. Mae ychydig iawn o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau gyda chymorth mewn ffurfiau eithaf adnabyddus, wrth drafod pensiliau a chreonau.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn cyfrif gwrthrychau i bump yn hyderus ac mae ychydig o blant yn adnabod ac enwi rhifau i bump yn gywir. Mae tua hanner y plant yn defnyddio ystod bridol o iaith fathemategol gyda'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio gwahanol ddarnau o does fel 'bach' a 'mawr' wrth greu chwilod. Maent hefyd yn defnyddio rhifau'n ymarferol wrth drafod 'tal' a 'byr', ac wrth gymharu'r gwahaniaethau mewn siapiau fel petryal, sgwâr, cylch a thriongl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir. Maent yn defnyddio arian yn yr ystyr iawn wrth brynu blodau yn y siop.

Mae bron pob un plentyn yn deall beth i'w wneud pan gânt gyfarwyddyd yn y Gymraeg ac maent yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol heb anogaeth. Mae llawer yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus ac yn defnyddio rhaglenni'r cyfrifiadur yn bwrpasol.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant yn ddysgwyr hapus a hyderus. Mae bron pob un ohonynt, mewn perthynas â'u hoedran, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant gadw'n iach. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo yn drylwyr cyn bwyta'u ffrwythau ac yfed llaeth. Maent yn gwneud hyn yn annibynnol ac effeithiol, sy'n cynnwys sychu'u dwylo heb lawer o anogaeth. Mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda fod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau a bod chwarae tu allan ar deganau mawr a rhedeg o gwmpas yr ardal allanol yn eich cadw'n heini .

Mae gan llawer o blant agwedd dda at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr holl brofiadau a gynigir iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar y staff. Maent yn ymddwyn yn dda. Maent yn ymgymryd yn llawn â phob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau priodol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau synhwyrol drostynt eu hunain, er enghraifft wrth ofyn am fynd i'r tŷ bach, gwisgo'u cotiau a defnyddio cyfarpar yn eu tro.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac ag oedolion ac ymwelwyr. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o anghenion pobl eraill ac yn rhannu adnoddau o'u gwirfodd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant, ymgysylltu a chanolbwyntio.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynllunio yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn briodol ac yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol a phresennol y plant. Mae cyfleoedd diddorol ar gael i bob plentyn i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm tu mewn yr adeilad. Yr arweinydd dros dro sy'n paratoi'r cynllunio ar gyfer y staff ac maent yn trafod gweithgareddau'r themau yn ddyddiol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant.

Mae gweithgareddau a thasgau penodol wedi'u cynllunio'n drwyadl ac mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Mae'r medrau a'r amcanion dysgu yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno'n dda i herio plant unigol. Darperir gweithgareddau da i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol mewn llythrennedd, rhifedd, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd, datblygiad corfforol a datblygiad creadigol. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol â'r plant yn y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn addas. Mae'r staff yn gyson gyfeirio'r plant tuag at ddefnyddio cyfarpar technolegol fel y cyfrifiadur a thil y siop. Mae gan blant lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau diddorol fel chwarae rôl yn y siop a'r gegin, arbrofi â thywod, trafod y tywydd, adeiladu blociau a rhannu mewn profiadau tedi ar bicnic.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Ni ddarperir cyfleoedd da i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Felly, nid oes digon o gyfleoedd i'r plant i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r byd ehangach a datblygu eu hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas bositif rhwng yr holl staff a'r plant. Mae'r cynllunio yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff. Mae'r addysgu'n ysgogol ar y cyfan. Mae'r staff yn gosod amcanion dysgu clir ar ddechrau pob gweithgaredd ffocws i sicrhau fod y plant yn deall pwrpas y gweithgaredd. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw'r cyflwyniadau yn cael eu cyfatebu'n briodol at oedran y plant ac mae ymatebion y plant dwy flwydd oed yn effeithio ar ganolbwyntio'r plant hŷn.

Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol, sy'n sicrhau fod plant unigol yn cael cyfleoedd da i rannu profiadau ym mhob gweithgaredd sydd ar gael. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol. Mae'r staff yn synhwyrol wrth ymyrryd ac maent yn caniatáu i'r plant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn modelu iaith dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod stori a chwarae rôl.

Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau'n llwyddiannus fod pob plentyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol ac nid yw'r ardal tu allan yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol.

Mae gweithdrefnau asesu addas yn bodoli. Mae'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn cael eu cwblhau'n ddigonol. Nid yw'r staff yn cwblhau asesiadau cyson sy'n cofnodi cynnydd plant o'u mannau cychwyn gyda digon o fanylder. Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu'n briodol am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw amser.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod gofal dyddiol a iechyd y plant yn dda. Mae ymwelwyr ac ymweliadau yn ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymweld â'r gymuned trwy deithiau o amgylch y pentref, i wyliau'r Mudiad Meithrin ac ambell daith ar y trên. Mae'r defnydd o'r ardal leol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn effeithiol.

Mae darpariaeth dda gan y lleoliad ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn cael eu meithrin yn synhwyrol gan y staff. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn dda wrth fwyta ffrwythau ac yfed llaeth o gwmpas y bwrdd bwyta. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfleoedd da ar gael i'r plant i ail-gylchu papur, plastig a bwyd. Mae'r lleoliad yn plannu llysiau, blodau a ffrwythau mewn potiau yn yr ardal allanol, sy'n

dechrau datblygu eu dealltwriaeth am gynaliadwyedd yn briodol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gan y staff gymwysterau addas a phrofiad da ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn briodol wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae'r drysau ar gau a dim ond aelod o staff sy'n eu hagor. Nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i'r plant gael eu casglu ac yn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni, gofalwr cyfarwydd neu gyrrwr y bws, sy'n cludo ychydig o blant i'r ysgol leol.

Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion gyda digon o drylwyredd ac felly maent yn destun pryder. Oherwydd y newidiadau sylweddol a diweddar ynglŷn â chyfrifoldebau staff, nid oes un aelod ymysg y staff cyfredol â chyfrifoldeb penodol am ddiogelu plant. Mae hwn yn ddiffyg pwysig.

Nid oes cydlynwr anghenion dysgu ychwanegol ymysg y staff presennol. Fodd bynnag, mae'r staff cyfredol yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion arbennig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad, drwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a fabwysiedir gan y staff, yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus yn yr adeilad i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau wedi eu rhannu'n effeithiol rhwng y gweithgareddau parhaus a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Nid yw'r ardal tu allan yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd priodol ar gael i'r plant i dyfu planhigion mewn potiau. Mae hwn yn ymestyn yn ddigonol eu dealltwriaeth o sut mae planhigion yn datblygu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r arweinydd dros dro yn egnïol ac mae hi'n gweithio'n agos gyda gweddill y staff i greu ethos positif, sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Mae cynlluniau datblygu yn newydd iawn i bob aelod o'r staff presennol. Mae'r lleoliad wedi creu cynllun datblygu priodol er mwyn gwella'r lleoliad ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r datblygiadau wedi cael digon o amser i ymsefydlu ac effeithio'n ddigonol ar ymarferion y lleoliad. Mae'r lleoliad yn dibynnu'n sylweddol ar gymorth asiantaethau

allanol fel yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin i arwain a thywys y staff ar sut i wella.
Mae’r staff yn cyfrannu’n weithredol drwy rannu cyfarwyddiadau clir â’i gilydd. Maent hefyd yn derbyn cyngor o asiantaethau allanol i wella er mwyn hyrwyddo’r profiadau gorau posibl i’r plant. Mae'r gefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol.

Mae’r hyfforddiant priodol a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn gefnogol iawn i ddatblygiad proffesiynol yr arweinydd dros dro a’r staff. Erbyn nawr, mae’r wybodaeth a ddatblygir yn dechrau cael ei ddefnyddio’n bwrpasol. Fodd bynnag, mae cyfeiriad strategol y lleoliad a rolau’r arweinwyr a’r rheolwyr yn annelwig wrth gynllunio ymlaen, oherwydd newidiadau sydyn yn y strwythur rheoli.

Nid yw'r pwyllgor rheoli yn chwarae rhan bwrpasol ym mywyd y lleoliad. Nid yw'n monitro ac yn cyfarwyddo'r staff presennol yn gadarn i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu hegluro, dyrannu a'u cefnogi drwy hyfforddiant effeithiol.

Mae'r lleoliad wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunan arfarnu yn newydd, fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau wedi arwain at wella ansawdd a darpariaeth ymhellach eto. Erbyn nawr, mae'r gweithdrefnau hunan arfarnu yn fwy systematig a chlir. Mae pob un o'r staff yn fwy ymwybodol o bwrpas ac effaith hunan arfarnu effeithiol. Mae'r arweinydd dros dro a'r staff yn datblygu gwell dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau’r lleoliad. Maent bellach yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu darpariaeth ymhellach ac yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

Mae'r cynllun datblygu, sy'n deillio o'r hunan arfarniad diweddar, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella’r lleoliad ymhellach. Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn cyfres o gyfleoedd hyfforddi a datblygu da. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin.

Mae cynnydd anghyson wedi ei wneud mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf; yn ymwneud â’r systemau asesu i symud plant ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu a phrosesau hunan arfarnu’r lleoliad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r rhieni a’r gofalwyr, yn yr atebion i’r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad â’r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi’r safonau gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored a’r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â’r staff. Erbyn i’r plant adael y lleoliad, mae’r rhieni’n teimlo eu bod wedi’u paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r cysylltiadau gyda’r rhieni, y gymuned yn gyffredinol, y Mudiad Meithrin a’r awdurdod lleol yn dda.

Mae’r lleoliad yn elwa’n fawr o’r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin.  Mae’r cyngor a’r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i symud y lleoliad ymlaen ac wedi cyfrannu at safonau da a gwell darpariaeth.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Yn ddiweddar, mae'r newidiadau mewn staffio wedi achosi anghysondebau yn natblygiad y lleoliad.  Mae gwybodaeth y staff yn datblygu drwy hyfforddiant priodol i gyflwyno cwricwlwm cytbwys.  Mae arbenigedd y staff yn cael ei ddefnyddio'n dda ac maent yn gweithio’n effeithiol ochr yn ochr â'i gilydd i wella cyflawniadau'r plant.

Mae gan y lleoliad adnoddau dan do da ac fe'u defnyddir yn effeithiol i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant ac mae hyn yn annog annibyniaeth.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu.  Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r ardal tu allan yn effeithiol.

Mae cefnogaeth asiantaethau allanol wedi sicrhau gwell cysondeb, safonau da a gwell darpariaeth.  Fodd bynnag, nid yw’r broses o sicrhau gwelliannau drwy blaenoriaethau cynllunio a datblygu strategol wedi ei sefydlu.  Mae angen cymorth sylweddol ar y lleoliad gan asiantaethau allanol i ddatblygu ymhellach.   Nid yw'r pwyllgor rheoli yn llwyddiannus wrth ddatblygu staff, dyrannu rolau a chyfrifoldebau pwysig a sicrhau bod y strategaethau i wella yn effeithiol.

Er bod y plant yn cyflawni deilliannau cadarnhaol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian, oherwydd y meysydd pwysig i wella sy’n perthyn i’r arweinyddiaeth a rheolaeth.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |